Tud 1.

Cofnodion Mis Gorffennaf o Gyngor Cymuned Llanbedr 6.7.23

Yn Bresennol

Annwen Hughes, Helen Johns ,Luise Vassey, Robin Ward,Gwynfor Owen, Eirwyn Thomas, Kevin Titley, Jane T Williams.

Ymddiheuriadau

Nia Jones, John Evans.

Datgan Buddiant – Eirwyn Thomas (parthed cais cynllunio Mochras).

Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir.

Adroddiad Cyllid

Nodwyd bod £27094.53 yn y banc ar ddiwedd Mis Mehefin.

Mae hyn ar ol talu y canlynol

£300 am dorri coeden cae chwarae

£10 llogi Neuadd

£250 gwaith cynnal a chadw cae chwarae a cae deiliog.

£32 gwaith rhoi petha ar y wefan.

Derbyniwyd hefyd £1726.50 arian claddu.

Nododd y Clerc bod angen rhoi manylion talu dros y we ym mhob cyfarfod o'r Cyngor o hyn allan. Hefyd gan bod hi yn wyliau yn Awst, y bydda raid anfon manylion talu dros e bost I bawb, a hwythau cymeradwyuo fel hynny. (DDim yn iawn I bobl orfod aros yn hir am eu taliadau).

Rhagweld biliau eraill ym mis Gorffennaf -

Torri Fynwent £150

Cae Chwarae eto £250

Torri llwybrau

Toiledau Cyhoeddus £4000

Archwiliad Mewnol.

Archwiliad Allanol.

Codi bwlch yn y clawdd y fynwent amcanbris £100

**Ceisiadau Cynllunio**

**Derbyniwyd cais** NP5/62/116E

Cysgod y Coed, Llanbedr – tynnu wal caeedig I'r balcony presennol a gosod rheiliau du, dur a chopaon yn ei le.Sylwadau – nid oes gan y Cyngor unrhyw broblem gyda'r cais yma, felly dim gwrthwynebiad.

*Sonniodd Eirwyn Thomas y bydd cais cynllunio Mochras yn cael ei gyflwyno yn y dyddiau nesaf. Felly trafodwyd hwn hefyd.

ETh yn datgan diddordeb wrth gwrs. Sef cais am sied beiriannau .

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad I hyn.

Materion Eraill yn codi

1. Y Fynwent

Nododd y Clerc bod gwaith chwistrellu chwyn/drain ac eiddew wedi ei wneud yn y fynwent. Gobeithio bydd hyn yn gweithio. (Eirwyn Thomas wedi gwneud y gwaith). Bod Jason hefyd yn mynd I dacluso y llwybr at y fynwent.

Nododd AH bod pobl yn dal I blannu blodau ar feddi. ETh am son wrthynt nad ydym yn caniatau hyn. Angen rhoi posteri yn y fynwent I hysbysebu hyn.

2. Llwybrau Cyhoeddus – bod John Williams ar ddechrau y gwaith o dorri llwybrau – Coed Mawr, 62, 7,

Bod Cyngor Gwynedd yn mynd I wneud gwaith ar lwybr 23 a llwybr 8.

Annwen Hughes wedi hysbysu Cyngor Gwynedd bod angen camdda newydd ar lwybr 48, 38

Llwybr Clawdd Llanw – rhan o lwybr yr arforddir bod KT a'r Clerc wedi hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru bod angen lefelu y llwybr yma.

3. Cae Chwarae – Cae Deiliog
   Angen chwilio am blac I roi ar y goeden – cofid.
   Gwrych ar y terfyn o un giat I'r llall. Mae angen torri y gwrych yma, ond pasiwyd I beidio a gwneud tan yr Hydref – polisi bioamrywiaeth. Adar yn nythu a blodau gwyllt. Bydd angen cael pris am dorri hwn. Torri yn ol tua 2 droedfedd a hefyd torri uchder y tyfiant.

4. a) Enw Talwrn Bach I fod yn swyddogol ar yr Orsaf Dren?

Wedi anfon at Adran Iaith parthed hyn. Ychwanegu at yr enw Llanbedr. Dim ymateb hyd yma.

b) Bin baw cwn ger y rheilffordd – wedi holi am hyn unwaith yn rhagor I Cyngor Gwynedd. Heb gael ymateb. Pe bae bin baw cwn yn cael ei osod gerllaw, byddai yn haws cael bin sbwriel wedyn ger y cysgodfan.

5. Polisi bioamrywiaeth – yn y broses o wneud hyn. Wedi derbyn copi o un gan AH, fydd o gymorth hefyd. Angen ychwanegu rhai pethau ato eto cyn gallu ei fabwysiadu.

6. Rheolau Sefydlog – diweddariad gan Un Llais Cymru. Angen mabwysiadu hwn hefud.

Rhai petha ddim yn gyson gyda un ar gyfer Cyngor Llanbedr – rhif quorwm a hefyd 2 flynedd fel Cadeirydd yn Llanbedr. Anfon ymlaen at RW.

7. Cyfarfod gyda Cyngor Gwynedd a Trafnidiaeth I Gymru yn Neuadd Llanbedr I drafod y ffordd ymlaen gyda'r ffordd – ymylon.

Siomedig oedd barn ambell I Gynghorydd parthed y cyfarfod yma. Derbynniwyd cofnodion gan Gyngor Gwynedd o'r hyn a drafodwyd. Roedd y Clerc wedi anfon gwahoddiad at y tir feddiannwyr hefyd I'r cyfarfod. Teulu Bailey's wedi mynychu. Llawer o son am yr ennillion cyflym ar gyfer yr ardal yn gyffredinol. Hefyd bod yr arian o £300,000 wedi cyrraedd Cyngor Gwynedd ar gyfer gwaith cychwynnol –

Mae angen penodi Rheolwr Prosiect – angen gneud hyn yn fuan. Y Clerc I holi a yw y swydd yma wedi cael ei hysbysebu eto/

Nododd AH ei bod mewn cyfarfod yn y Sioe Frenhinol gyda Mark Drakeford a bydd yn holi parthed y ffordd os bydd cyfle.

Rhoi cofnodion Gwynedd ar y wefan er gwybodaeth.

**Adroddiad Cynghorydd** Gwynfor Owen

Wedi bod mewn Cyngor llawn o CG. Heddiw (6.7.23)

Nodi er gwybodaeth bod Adran Social Services wedi gweithio yn galed yn Ngwynedd a nifer fawr o referrals. Llawer o broblemau cymdeithasol a iechyd meddwl.

Yn dilyn cwyn – pam nad oes yna fflagiau glas ar draethau yng Ngwynedd. Neb wedi gwneud cais am statws yma eleni, rheolau yn wahanol ac yn anodd.

Gofalwyr – wedi newid o fod dan ofal Cyngor Gwynedd I fod yn gwmni preifat. Hyn yn achosi problemau I rai.

**Adroddiad gan Annwen** Hughes

Bod y gwaith ar y 2 giosg wedi ei wneud.

Twll yn y ffordd ger Wenallt wedi ei drwshio, ond bod trafferth wedi bod gyda symud ceir oedd wedi parcio ger y safle..

Bod y grid dwr ger Maes y Llan wedi ei drwshio.

Torri ochrau'r ffordd – Gwaith yn dechrau wythnos 10.7.23

Nodwyd bod John Evans wedi torri tyfiant o amgylch arwydd Llanbedr 20 mya ger y Felin. Anfon I ddiolch iddo.

Hefyd y bydd torri eiddew bont Glanffrwd ar y rhaglen waith Cyngor Gwynedd y mis yma.

**Cyfarfod HAL – yn y caffi Pwll Nofio 29.6.23**

Gan nad oedd Kevin yn gallu mynychu, bu I Eirwyn a'r Clerc fynychu

Sefyllfa fregus iawn sydd yma. To y wal ddringo wedi chwalu.

Roedd problem gyda to yr ystafell newid dynion hefyd. Hwn wedi ei drwshio yn awr er mwyn gallu parhau yn agored fel pwll nofio.

Angen sicrwydd am arian gan Gynghorau Cymuned –

Nodwyd gan HAL bod Cynghorau I dalu am y pwll, caffi ar wal ddringo. Nododd Cyngor Talsarnau a Llanbedr nad oedd hynny yn gywir.

Tud 4.

Talsarnau hefyd yn pwyso I gael gweld contract gwaith.

Hefyd bod HAL yn awyddus I roi cyfrifon allan bob 3 mis.  Angen I bob Cyngor drafod hyn.

Hefyd angen I Gynghorwyr fod ar y "board of non executives".  Angen holi yn y Cyngor parthed hyn. Cyngor Llanbedr ddim yn awyddus I wneud hyn.  Oblygiadau.

Gan bod Llanbedr heb gael Cyfarfod Cyhoeddus ar y mater, ac e byst a gafwyd yn gwrthwynebu rhoi ychwaneg o arian at y pwll –

Pasiwyd bod Clerc Llanbedr yn gwahodd Cynghorwyr I drafod ymhellach, gan bod rhai Cynghorau heb dalu tuag at HAL..  Llanbedr wedi talu hanner y swm.

Trefnu cyfarfod 3.8.23 yn Llanbedr.

Mae HAL hefyd yn chwilio am wirfoddolwr I wneud y cofnodion.

Hefyd angen peiriannydd civil I wneud gwaith ar ymchwilio I gyflwr to y pwll nofio.

(Eirwyn a Morfudd wedi awgrymu cwmni Wakemans ddaru wneud y gwaith ar Neuadd Llanbedr)

Sefyllfa anodd iawn!

**Materion Eraill**

1. Rhieni wedi holi a oes modd gadael nets y goliau ymlaen dros yr haf.?  Dim gwrthwynebiad I hyn.  Holi a fyddai yr hen nets yn gweithio?
2. Rhai rhieni yn awyddus I weld offer ar gyfer plant hyn yn y cae chwarae –

Offer cadw'n heini

Basged pel rwyd

Ramp beiciau.

Pawb I edrych ar wahanol brisiau.

3. RW yn codi y mater parthed diogelwch yn ystod y Gwyl Gwrw.  (Pasiwyd nad oes modd I Gyngor Cymuned dalu arian tuag at hyn)
   Problem gyda gymaint wedi cyrraedd llynedd ar y tren.  Fydd hyn ddim yn digwydd eleni!

4. Gof Golofn – angen tacluso a thocio rhai o'r coed yma.  Pasiwyd I wneud hyn fel Cynghorwyr.
5. Deffibulator – Kevin angen cael gwybodaeth I roi ar y wefan parthed hwn.
6. Bod mainc bicnic wedi ei gosod yn Cae Deiliog – cynllun grant Transport for Wales (rheilffordd)
7. Nododd Gwynfor Owen hefyd bod bin newydd wedi cael ei osod yn y Maes Picnic – ffordd Mochras.